

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 1 CHWEFROR 2024 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Meinir James, Eifion Jones, Nicola Jones, Elfyn Williams, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Y Cyng Rheinallt Jones, Carys Thomas a Viv Davies.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4^{ydd} Ionawr 2024.

5. Materion yn Codi

- 1. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 2. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 3. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 4. FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 5. Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 6. PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole** – Roedd cais cynllunio pellach wedi cael ei chyflwyno ar y mater. Nodwyd.
- 7. Cynnig am gwelliannau heol ym Mancycapel** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 8. Gwyllo Cyflymder Cymunedol** – Cafwyd cadarnhad na fyddai GanBwyll yn defnyddio'r arwyddion derbyniwyd prisiau amdanynt wrth Westcotec ar gyfer unrhyw gamau gorfodi. Byddai'r Cynghorwyr Nicola Jones a Jenny Jones yn edrych i fynychu'r cyfarfod ar-lein mewn perthynas â Gwyllo Cyflymder Cymunedol ar 8^{fed} Chwefror ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.
- 9. Bin Capel Rama a Heol y Lan** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Cytunwyd hefyd i ofyn am gael bin yn Heol y Lan.
- 10. Ymweliad posib â Gwaith Trin Dŵr Carwe** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 11. Bin yng Nghapel Penygraig** – Nodwyd fod y bin newydd yn cael ei aros amdano.
- 12. Grid Cenedlaethol** – Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog – Cadarnhawyd bod cytundeb mewn lle i holl drigolion a busnesau ardal Cymuned Llandyfaelog

dderbyn yr ymgynghoriad. Roedd yr Ymgynghoriad i fod i gael ei lansio yn ystod yr wythnos nesaf. Nodwyd.

- 13. Arosfan Bws Bancycapel** – Nodwyd bod Atgyweiriwr y Cyngor wedi trwsio'r lloches bws.
- 14. Materion Llifogydd yng Nghilgadan** – Byddai ymweliad safle gyda'r Cyngor Sir yn cael ei threfnu ar y mater. Nodwyd.
- 15. Gwasanaethau Bws X11** – Cafwyd cadarnhad bod y Gwasanaethau wedi'u lleihau o 1^{af} Ionawr ac y byddent yn aros ar y lefel hon tan 29^{ain} Mawrth. Roedd adolygiad yn cael ei gynnal ar y mater ar hyn o bryd gan First Cymru. Yn y cyfamser, nodwyd newidiadau pellach i'r ddarpariaeth gwasanaeth.
- 16. Archwiliad Cymru** – Derbyniwyd anfoneb ar gyfer Archwiliad 2021-22 gyda thâl o £795.00. Roedd lefel y tâl hwn yn destun pryder i'r Cyngor a bydd y mater yn cael ei godi gydag Un Llais Cymru.

6. Gohebiaeth

- 1. Un Llais Cymru** – Papurau ar gyfer Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 23^{ain} Ionawr 2024. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Meinir James. Nodwyd.
- 2. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cadarnhad o wrthod yr apêl a wnaed mewn perthynas â Chais Cynllunio rhif PL/01879 am ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer hyd at 23 cartref a gwaith cysylltiedig ar dir gwag oddi ar Lon Santes Ann, Cwmffrwd. Nodwyd.
- 3. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Diweddariad ar y broses gyda Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Nodwyd.
- 4. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am y Fforwm Cyswllt Cynghorau Cymuned a Thref a gynhaliwyd ar 17^{eg} Ionawr. Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod gan y Cynghorydd Nicola Jones. Nodwyd.
- 5. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad ar Cynigion drafft ar gyfer yr adolygiad o'r Dosbarthau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio. Nodwyd nad oedd yna unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig ar gyfer Ardal Gymunedol Llandyfaelog. Nodwyd.
- 6. Cymorth Cynllunio Cymru** – Gwybodaeth am digwyddiadau seminarau ar Gynlluniau Datblygu Strategol. Byddai Cyng Nicola Jones yn edrych i fynychu un o'r sesiynau.
- 7. Archwilio Cymru** – Cynllun Ffioedd 2024-25. Nodwyd.
- 8. Bute Energy** – Ymgynghoriad ar llinell uwchben newydd arfaethedig ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd. Nodwyd pryder nad oedd digwyddiad ymgynghori lleol wedi'i drefnu ar y mater. Gofynnir hefyd am gadarnhad ynghylch pa ardaloedd oedd wedi derbyn taflenni ymgynghori ar y cynigion. Nodwyd.
- 9. Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Digwyddiadau Hyfforddiant TG, Cyfryngau Cymdeithasol a Gwefan. Nodwyd.
- 10. Cyngor Tref Caerfyrddin** – Gwahoddiad i'r Cadeirydd i fynychu Gorymdaith Dewi Sant ar ddydd Sadwrn 2il Mawrth. Nodwyd.
- 11. Un Llais Cymru** – Cais am enwebiadau ar gyfer mynychu Garddwesti Palas Buckingham. Bydd enw'r Cadeirydd yn cael ei gyflwyno.
- 12. Canolfan Seiber Gydnerth Cymru** - Cylchlythyr Ionawr 2024. Nodwyd.
- 13. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cylchlythyr Calon Tân. Nodwyd.

7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Diffibrilwyr

Roedd prisiau wedi cael eu chwilio ar gyfer padiau i'r 2 ddiffibriliwr yn Idole a Chwmffrwd fel a ganlyn:

• The Defibpad	£186.49
• Defib warehouse	£159.00
• Defib4life	£143.00
• St Johns Ambulance	£215.00

Roedd yna obaith byddai'r Gwasanaeth Ambiwlans hefyd yn gallu darparu padiau eraill. Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

2. Archwiliad Cae Chwarae

Roedd yr eitemau i'w newid yn y cae chwarae wedi'u cwblhau gan yr Atgyweiriwr. Nodwyd.

3. Coed ar gyfer Cae Idole

Cadarnhaodd y Clerc byddai'n trefnu i brynu'r ddwy goeden.

4. Cytundeb Torri Gwair 2024

Derbyniodd y Cyngor dendrau ar gyfer y contract torri gwair ar gyfer 2024 fel a ganlyn:

a. Michael Leefe Tasgmon	£2,310.00
b. Meithrinfeydd a Thirweddau Wrenvale	£4,660.00
c. Contractio Wenallt	£3210.00

Cymeradwywyd y pris gan Michael Leefe Handyman.

8. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Awgrymwyd tâl yr awr o £22.00 (£20.00 yn 2023-24) gan yr Atgyweiriwr ar gyfer y flwyddyn 2024-25, cymeradwywyd hyn.

9. Digwyddiadau Cymunedol 2024

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2024 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Bwgan Brain.

Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

10. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2023-24

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd ac arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

11. Cynllunio - derbyniwyd hyd y dyddiad.

- a) **Datganodd y Cadeirydd ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Cymerodd y Cyng Nicola Jones y Gadair ar gyfer ystyriaeth y mater. PL/06845** - Newid ysgubor garreg yn yr ardd - Preswylfa, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5PW. Dim gwrthwynebiadau.
- b) **PL/07062** - Bydd y tŷ presennol yn cael ei adnewyddu'n llwyr ac rydym am ddymchwel y garej sengl bresennol ac adeiladu garej ddwbl ynghlwm gydag ystafell wely atig ychwanegol ac ystafell ymolchi en-suite gyda drws rhyng-arweiniol i'r llawr 1af. Bydd yr estyniad newydd hwn yn cael ei leoli ar yr ochr ddeheuol i gefn yr eiddo - Brynhawddgar, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5PS. Dim gwrthwynebiadau.
- c) **Datganodd y Cyng Eifyn Williams ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a gweddill yr Agenda. PL/04973** - Defnyddio Adeilad Diwydiannol a lard Gysylltiedig ar gyfer Defnyddiau Diwydiannol Cymysg gan gynnwys Garejis Cerbydau Masnachol a Chyfleuster Prosesu Metelau - 1-4 Ystâd Fasnachu Gelligaeros, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ. Cytunwyd i godi gwrthwynebiadau, gan nodi bod y Cyngor yn credu bod y cais yn groes i bolisiau cynllunio mewn perthynas â phryderon priffyrdd (GP1,d, h, l ac m), effeithiau amgylcheddol (EP2.b a d) effeithiau sŵn GP1.d ac EP2.c), effaith ar eiddo cyfagos (GP1.d) a phryderon llygredd dŵr (GP1.j).

12. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau ganlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ionawr a costau	£722.43	£26.00 £7.00 £11.70 £9.10	£776.23	£298.60		£477.63

2. **Play Inspection Company £105.00** Archwiliad cae chwarae £87.50 gyda TAW
3. **Kompan Ltd £69.50** Cae Chwarae Idole £57.92 + TAW £11.58 (gweler eitem 7.2)
4. **Archwilio Cymru £795.00** Ffi Archwilio 2021-22 (gweler eitem 5.16)

13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Mynegwyd pryder eto mewn perthynas â diogelwch ffyrdd cerddwyr yn ardaloedd Bancycapel, Cloigyn a Phontantwn.
2. Mynegwyd pryder ynghylch cyflwr ymyl ffordd ganolog Tŷ Hir. Bydd y mater yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.

3. Bydd tyllau yn y ffordd o amgylch Penrheol a Ffynnonwen yn cael eu codi gyda'r Cyngor Sir.
4. Bydd golau troedffordd nad yw'n gweithio y tu allan i 36 Maesglasnant yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.
5. Bydd diffyg casgliadau bin gwastraff Ardal Amwynder Bancycapel yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.
6. Nodwyd bod yr arwydd adborth cyflymder ger Fferm Cwmffrwd efallai ddim yn gweithio, bydd y mater yn cael ei godi gyda'r Cyngor Sir.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 7^{fed} Mawrth 2024.